Sgiliau Creadigol a Diwylliannol Cynllun Iaith Gymraeg

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1. DATGANIAD AGORIADOL

Mae'r Cynllun wedi derbyn sêl bendith Comisiynydd y Gymraeg o dan Adran 14 (1) o'r Ddeddf ar 31 Hydref 2014.

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydnabod y gall unigolion fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith ac mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin ag ef ac yn cymhwyso'r egwyddor hon i ddisgwyliadau ar y cyrff y mae'n delio â nhw.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn trosglwyddo swyddogaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n cysylltu Cynlluniau Iaith Gymraeg â Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur yn rhoi grym cyfreithiol hefyd i statws swyddogol yr iaith. Dros gyfnod o amser, bydd Cynlluniau Iaith Gymraeg yn cael eu disodli gan safonau statudol a fydd yn rhoi dyletswyddau ar sefydliadau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i sicrhau na fydd Cymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na Saesneg. Byddant yn nodi sut y disgwylir i sefydliadau ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd a sut y byddant yn ymdrin â'r defnydd o'r Iaith Gymraeg. Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol wedi ymrwymo i gymryd camau cadarnhaol er mwyn gweithredu drwy'r Mesur newydd.

2. CYFLWYNIAD I SGILIAU CREADIGOL A DIWYLLIANNOL

2.1. Cyd-destun y DU

Mae **Sgiliau Creadigol a Diwylliannol** yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc weithio a dysgu yn y diwydiannau creadigol. Rydym yn dymuno sicrhau bod cyflogwyr yn elwa o genhedlaeth fedrus a dawnus a pharhau ar lwybr o dwf economaidd. Mae ein rhwydwaith o gefnogwyr o'r byd diwydiannol ac addysg – Yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer y Creadigol a'r Diwylliannol – ar gael i'r rhai sydd wedi ymrwymo i'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant safonol, prentisiaethau a chyngor gyrfaol. Gyda'n gilydd rydym wedi creu dros 3,000 o Brentisiaethau Creadigol yn y DU ers 2008, ac rydym yn darparu 6,500 yn rhagor o swyddi dros y ddwy flynedd nesaf. www.ccskills.org.uk

- Rhown gyfleoedd i bobl ifanc weithio a dysgu yn y diwydiannau creadigol

- Rhown genhedlaeth fedrus o weithwyr i gyflogwyr
- Rydym yn cysylltu arbenigwyr diwydiannol â darparwyr hyfforddiant ac yn gwella'u cynnig i fyfyrwyr
- Rydym yn hyrwyddo cyflogaeth ieuenctid a chyfle teg
- Rydym yn cynnal ymchwil grymus sy'n gosod yr agenda ar gyfer trafod
- Gosodwn safonau diwydiant a gwella ymarfer

2.2. Cyd-destun Cymreig

Yng Nghymru, gwelir y diwydiannau creadigol fel sbardun allweddol ar gyfer twf busnes, a dyna yw rôl diwylliant hefyd. Mae'r Iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig mewn diwylliant a hunaniaeth.

Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru gyda'i strategaeth sgiliau a chyflogaeth, Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru, wedi pwysleisio'r angen i integreiddio'r agendâu datblygu economaidd a sgiliau. Rhoddwyd y gwaith i'r Cynghorau Sgiliau Sector o gryfhau llais y cyflogwr mewn penderfyniadau'n ymwneud â darparu sgiliau ac i fod yn "ryngwyneb strategol" rhwng cyflogwyr a Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau i Gymru a ddatblygwyd yn dilyn prosiect Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau ac wedi ymgynghori'n sylweddol â chyflogwyr, darparwyr a phartneriaid allweddol yng Nghymru a byddwn yn cyflawni yn y meysydd a amlinellir yn y Glasbrint Creadigol i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Eiriolaeth ar gyfer Prentisiaethau Creadigol**
- **Datblygu a chynnal rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus**
- **Diwygio Cymwysterau fel rhan o brosiectau penodol**
- **Ymyriadau er mwyn cynyddu amrywiaeth yn y sectorau**
- **Rhaglen ymchwil yn deillio o fidiau cystadleuol am arian a chronfeydd mwy, yn seiliedig ar brosiectau, sy'n cynnwys elfen ymchwil**
- **Digwyddiadau gyrfaoedd Dewisiadau Creadigol**

Mae ein rhaglen waith yn cael ei hatgyfnerthu'n sylweddol gan wybodaeth am y farchnad lafur ac yn delio ag amryw o weithgareddau allweddol yn y Glasbrint Creadigol i Gymru (y Cytundeb Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiannau creadigol a diwylliannol).

3. <u>CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETH</u>

3.1 <u>Polisïau a Mentrau Newydd</u>

3.1.1 Wrth lunio polisïau a mentrau newydd, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisïau a mentrau newydd wrth eu llunio a sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg
- sicrhau y bydd mesurau'r Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisïau a mentrau newydd ar waith
- gwarantu nad yw polisïau neu fentrau newydd yn tanseilio Cynllun Iaith Gymraeg Sgiliau Creadigol a Diwylliannol neu Gynllun Iaith cyflenwyr eraill
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosib ac yn symud y sefydliad yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn
- ymgynghori â Comisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn â bwriadau a fydd yn effeithio ar y Cynllun, neu'n effeithio ar Gynlluniau cyrff cyhoeddus eraill. Ni chaiff y Cynllun ei newid heb gytundeb y Comisiynydd.
- sicrhau nid yn unig bod staff ac ymgynghorwyr sy'n llunio polisïau (yng Nghymru a thu hwnt) yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith ac o gyfrifoldebau Sgiliau Creadigol a Diwylliannol dan Ddeddf Iaith 1993, ond bod holl staff perthnasol ac angenrheidiol Sgiliau Creadigol a Diwylliannol (yng Nghymru a thu hwnt) hefyd yn ymwybodol o'r Cynllun.
- Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a sensitifrwydd ieithyddol ymysg ei staff yng Nghymru drwy:
  - *i)* Trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda holl Gyfarwyddwyr/Rheolwyr (yng Nghymru a thu hwnt) Sgiliau Creadigol a Diwylliannol er mwyn esbonio sut bydd y Cynllun yn effeithio ar eu gwaith.
  - *ii)* Cyhoeddi i'r holl staff yn y cyfarfodydd Tîm, Rheoli a Chyfarwyddo (yng Nghymru a thu hwnt) fod y Cynllun i'w weithredu
  - *iii)* Disgwylir i'r holl (*Benaethiaid Adran, Rheolwyr Busnes Rhanbarthol ac ati*) drwytho'u staff ar oblygiadau'r Cynllun i'w hunain ac i Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
  - *iv)* Cynnal arolwg a gwerthusiad blynyddol o'r Cynllun gyda'r personél perthnasol (dewiser fel bo'n briodol: *Pennaeth Polisi, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Prif Weithredwr, Rheolwyr Adran, Rheolwyr Busnes Rhanbarthol*) er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn sydd ei angen a monitro effeithiolrwydd gweithrediad y Cynllun
  - *v)* Cynnwys cyflwyniad i'r Cynllun Iaith fel rhan o gwrs anwytho ar gyfer pob aelod o staff newydd a gaiff ei apwyntio i Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yng Nghymru neu a fydd yn delio â'r cyhoedd yng Nghymru
  - *vi)* Llunio cylchlythyr copi caled ac electronig o gynnwys talfyredig y Cynllun a'i ddosbarthu i'r holl staff oddi mewn a thu allan i Gymru

3.2. Safon y gwasanaethau

3.2.1. Bydd gwasanaethau a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg lawn cystal eu safon, eu hansawdd a'u prydlondeb â'i gilydd. Wrth fynd ati i asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd y gwasanaethau Cymraeg, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn defnyddio'r un "dangosyddion perfformiad" ag a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau Saesneg.

3.2.2. Caiff y safonau yma a'u gweithrediad eu monitro fel yr amlinellir yn adran 3.1.1.

3.2.3. Bydd gweithrediad y Cynllun ac ymrwymiad Sgiliau Creadigol a Diwylliannol at gydraddoldeb ieithyddol yn cael ei gyhoeddi mewn cynlluniau blynyddol neu busnes neu gorfforaethol y sefydliad, cylchlythyrau deunydd hyrwyddo ac ar ei wefan.

3.2.4. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan y sefydliad mewn gwahanol leoedd.

3.3. Darparu gwasanaethau dwyieithog

3.3.1. Cred Sgiliau Creadigol a Diwylliannol mai teg a rhesymol yw i'r cyhoedd ddisgwyl derbyn gwasanaethau ganddo yn Gymraeg neu Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn. Er nad yw'n gallu cynnig y dewis teg a rhesymol hwn bob amser i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymrwymo i roi trefniadau ar waith fydd yn ei alluogi i ddarparu pob gwasanaeth i'r cyhoedd yr un mor effeithiol, hwylus a chyflawn yn y Gymraeg fel yn Saesneg.

3.3.2. I'r perwyl hwn, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn archwilio trefniadaeth pob un o'i wasanaethau i'r cyhoedd er mwyn penderfynu sut orau y gellir symud ymlaen tuag at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb. Rhydd flaenoriaeth yn y lle cyntaf i'r angen i sicrhau bod y swyddogion hynny sy'n cysylltu fwyaf â'r cyhoedd, boed yn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, neu drwy ohebiaeth neu gyfryngau eraill, yn medru gwneud hynny yn ddwyieithog.

4. DARPARIAETHAU

- **Rhown gyfleoedd i bobl ifanc weithio a dysgu yn y diwydiannau creadigol**

  Rydym wedi rhoi cyngor gyrfaol i dros 2 filiwn o bobl drwy gyfuniad o adnoddau ar-lein a digwyddiadau.

- **Rhown genhedlaeth fedrus o weithwyr i gyflogwyr**

  1 Rydym wedi gosod dros 3,000 o brentisiaethau mewn busnesau creadigol ers 2008.

  2 Bu i ni adeiladu'r Backstage Centre, sef canolfan hyfforddi ac ymarfer o'r radd flaenaf ar gyfer y diwydiannau cerdd, theatr a digwyddiadau byw sy'n cysylltu dysgwyr â phobl broffesiynol a

chyflogwyr o'r diwydiannau.

- **Rydym yn cysylltu arbenigwyr diwydiannol â darparwyr hyfforddiant ac yn gwella'u cynnig i fyfyrwyr**

  Rydym yn arwain yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer y Creadigol a'r Diwylliannol, sef rhwydwaith o bartneriaid sydd yn ymroddgar at wella safon addysg alwedigaethol yn y diwydiannau creadigol. Drwy'r rhwydwaith hwn, rydym yn cyrraedd dros 600,000 o bobl ifanc.

- **Rydym yn hyrwyddo cyflogaeth ieuenctid a chyfle teg**

  1. Byddwn yn creu 6,500 o swyddi yn y ddwy flynedd nesaf.

  2. Gan weithio gyda Chyngor Celfyddydau Lloegr, rydym wedi cyhoeddi canllawiau i gyflogwyr sy'n dymuno cyflogi interniaid mewn ffordd deg a hygyrch, gan hyrwyddo'r duedd yn y diwylliant recriwtio i ffwrdd o waith di-dâl.

- **Rydym yn cynnal ymchwil grymus sy'n gosod yr agenda ar gyfer trafod**

  1. Yn flaenorol, fel rhan o brif swyddogaeth Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, rydym wedi cyhoeddi ymchwil a dadansoddiad manwl yn flynyddol ers 2008, gan sefydlu Sgiliau Creadigol a Diwylliannol fel yr awdurdod ar gyfraniad y diwydiannau creadigol a diwylliannol i economi Prydain. Bydd ymchwil i'r dyfodol yn seiliedig ar fidiau cystadleuol gydag elfen ymchwil.

  2. Bu i ni gynghori'r llywodraeth ar faterion polisi ac wedi'n dyfynnu'n aml mewn adroddiadau a gomisiynwyd, o'r Comisiwn Cyflogau Isel i Adolygiad Henley ar Addysg Ddiwylliannol.

- **Gosodwn safonau diwydiant a gwella ymarfer**

  1. Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithio'n agos gyda chyflogwyr er mwyn gosod Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, gwella arferion gweithredu drwy'r diwydiant a hyrwyddo'r ymrwymiad i sicrhau mynediad teg.

  2. Rydym yn cynnal y Gwobrau Sgiliau Crefft, sef seremoni flynyddol i ddathlu rhagoriaeth mewn dysgu ac sy'n cynnal a datblygu crefftau traddodiadol a chyfoes.

4.2 Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru

Wrth ddatblygu sgiliau, gweithlu ac anghenion busnes y sector oddi mewn i Gymru, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymrwymo i ymchwilio ac ymateb i anghenion dwyieithrwydd fel rhan annatod o'i waith a phrosiectau penodol yng Nghymru. Dengys canlyniadau Cyfrifiad 2001 fod 20% o'r boblogaeth yn medru'r Gymraeg. Mae'r cynnydd hwn i'w briodoli'n bennaf i lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg. Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydnabod ei rôl wrth sicrhau fod addysg ddwyieithog a chyfleoedd hyfforddi yn parhau ar gael er budd cyflogwyr ac unigolion sy'n chwilio am waith o fewn y sector creadigol a diwylliannol.

Mae cynllun gweithredu cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru ddwyieithog, *Iaith Pawb,* yn datgan ei pholisi o brif-ffrydio'r iaith Gymraeg i mewn i bob agwedd o Gymru. Pwysleisia

Iaith Pawb bwysigrwydd rôl y Cynghorau Sgiliau Sector wrth ddiwallu anghenion sgiliau iaith Gymraeg yn eu sectorau penodol.

Mae canlyniadau ymchwil *Sgiliau Dyfodol Cymru* yn dynodi'n eglur fod sgiliau dwyieithog yn cael eu hystyried gan gyflogwyr yn gaffaeliad gwerthfawr. Dengys canfyddiadau hefyd fod yna ddiffyg sylweddol o bobl a chanddynt sgiliau dwyieithog mewn sectorau penodol.

Mewn unrhyw gais am arian ymchwil ac arian prosiect yng Nghymru, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau y bydd ymrwymiad parhaus i ymchwilio ac asesu anghenion siaradwyr Cymraeg yn bwrpasol. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynghori ac yn arwain Darparwyr Dysgu i adnabod ac ymchwilio i anghenion hyfforddi Cymru ddwyieithog.

4.3 Ymchwil

MESURAU

Cynhelir ymchwil yn awr o fewn Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ar sail ennill incwm neu ar sail ariannu prosiect lle mae nodau'r ymchwil yn gorgyffwrdd yn sylweddol â rôl y sefydliadau. Mae'r mesurau allweddol felly'n cynnwys:

- Bydd deilliannau ymchwil o brosiectau a ariannwyd yn cael eu cyhoeddi lle bydd hynny'n berthnasol ac yn dderbyniol i'r sefydliad sy'n ariannu. Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiadau penodol ynghylch testun yr ymchwil hwn – mae'n dibynnu ar y sefydliad sy'n tendro.
- Bydd gwaith a ariennir fel prosiect (e.e. drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ati) yn edrych yn fwy manwl ar feysydd gwaith sy'n gysylltiedig â sgiliau, addysg a gwaith o fewn y diwydiannau creadigol a diwylliannol.

GWEITHREDU

Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn debygol o gynnal ystod o ymchwil safonol a meintiol yng Nghymru dros y 5-10 mlynedd nesaf. Wrth geisio sicrhau arian ar gyfer prosiectau i'r dyfodol, bydd yn ceisio sicrhau arian i gynnal y gwaith yn ddwyieithog, ac yn ymarferol byddwn yn ymrwymo:

- Lle bydd arian ar gael, i gynnig yr opsiwn i ymchwilwyr gynnal arolygon ymchwil, grwpiau ffocws a dulliau eraill o gysylltu uniongyrchol yn bennaf yn Gymraeg.
- Byddwn yn cylchu ymchwil sydd angen ei gyfathrebu (e.e. datganiadau i'r wasg, diweddariadau ar y we ac ati) yn Gymraeg a Saesneg lle bydd yr ymchwil yn canolbwyntio'n neilltuol ar Gymru a lle cawsom arian yn benodol ar gyfer prosiectau sydd angen bod yn ddwyieithog yn eu sgôp.

- Cyhoeddir canlyniadau ymchwil yn ddwyieithog ar gyfer gwaith Cymraeg yn benodol, lle bydd arian ar gael drwy brosiectau neilltuol.

4.4 Gwybodaeth a Chanllawiau

MESURAU

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chanllaw i gefnogi addysg gydol oes y rhai a recriwtir ac a gyflogir.
- Sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael ynglŷn â ffynonellau hyfforddiant, cyngor a chanllawiau ar faterion yn ymwneud â sgiliau yn y sector.

GWEITHREDU

- Datblygir gwasanaeth cyngor a chanllaw i bobl ifanc a rhai proffesiynol sy'n gweithio yn y diwydiant neu rai sy'n dymuno gweithio yno. Mae tudalennau dwyieithog ar y we'n cael eu datblygu'n rheolaidd.
- Bydd canllawiau ar argaeledd cyfleoedd cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog ar gael drwy 'Creadigol'.

4.5 Datblygiad Sectorol a Phartneriaeth

MESURAU

- Cynnig cyfleoedd safonol i weithwyr presennol a'r sawl sydd yn chwilio am waith oddi mewn i'r sector drwy ein heiriolaeth o Brentisiaethau Creadigol a chadw ein Dewisiadau Creadigol a thudalennau Creadigol yn gyfredol
- Cytuno ar dargedau ar gyfer cyfraniadau o du'r asiantaethau cyhoeddus allweddol er mwyn cwrdd â blaenoriaethau'r sector
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau sydd i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru
- Hyrwyddo buddsoddiad mewn sgiliau a thalent a fydd yn cynorthwyo i ddiwallu anghenion y sector ac yn annog cystadleugarwch

GWEITHREDU

- Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol hefyd yn hyrwyddo datblygiad cyfleoedd hyfforddi dwyieithog tra hefyd yn cydnabod enghreifftiau o ymarfer da.

4.6 Fframweithiau Hyfforddi

MESURAU

- Diffinio a datblygu safonau galwedigaethol allweddol a llwybrau dysgu drwy brosiectau penodol a ariennir
- Cwrdd â'r patrymau cyfnewidiol o ofynion sgiliau a chynyddu cynhyrchiant

- Darparu cyngor a chyfarwyddyd i gyflogwyr a gweithwyr ar sgiliau penodol ac ymarferion hyfforddi
- Annog cyfranogiad cydweithredol i wybodaeth farchnad lafur, economaidd a sgiliau ym mhob cenedl a rhanbarth

GWEITHREDU

- Bydd Safonau a Chymwysterau, a fydd yn cynnwys fersiynau Cymraeg os ydynt yn bodoli yn y maes hwn, ar gael yn y DU drwy gronfa ddata NOS a Chofrestr Cymwysterau Rheoledig.
- Trwy ymgynghoriadau ar gymwysterau, adnabod rolau mewn swyddi lle mae sgiliau dwyieithog un ai'n hanfodol neu'n ddymunol a chydweithio â chyrff dyfarnu, cyflogwyr a rhanddeiliaid i sicrhau eu bod wedi eu sefydlu yn y safonau, cymwysterau a chynlluniau hyfforddi priodol.
- Yn ystod y broses ymgynghori NOS, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymgynghori â chyflogwyr Cymreig ar yr angen i gyfieithu'r rhain i Gymraeg.
- Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydweithio'n agos â Chyrff Dyfarnu i sicrhau bod cyfleoedd asesu ar gael, ble bynnag mae'n bosibl, ar gyfer y safonau a'r cymwysterau cyfrwng y Gymraeg/dwyieithog a flaenoriaethir. Bydd matrics yn cael ei ddatblygu yn olrhain safonau a chymwysterau sydd ar gael/fydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Wrth adnabod, blaenoriaethu a hyrwyddo hyfforddiant a chyfleoedd asesu dwyieithog, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn annog ac yn cefnogi rhwydweithiau cydweithredol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

5. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

5.1. Gohebu Ysgrifenedig

5.1.1. Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd papur pennawd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol sydd i'w ddefnyddio yng Nghymru yn cynnwys datganiad yn y ddwy iaith a fydd yn esbonio fod gohebiaeth i'w chroesawu yn Gymraeg neu'r Saesneg.

5.1.2. Bydd y targedau amser a osodir (sef 10 diwrnod gwaith) wrth ateb gohebiaeth Gymraeg yr un â'r targedau amser a osodir wrth ateb gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun yn arwain at oedi.

5.1.3. Bydd llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ateb yn y Gymraeg wedi'i lofnodi.

5.1.4. Bydd pob gohebiaeth, wedi sgwrs ffôn, wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle y canfyddir mai'r Gymraeg yw dewis iaith yr unigolyn, er efallai nad yw'r drafodaeth wedi'i chynnal yn y Gymraeg eto, yn Gymraeg

5.1.5. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gohebu â phob aelod o'r cyhoedd yn ei ddewis iaith os yn wybyddus.

- Oni wyddys ai Cymraeg neu Saesneg yw dewis iaith y derbynnydd, yna cychwynnir yr ohebiaeth yn ddwyieithog.
- Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol] yn casglu cronfa ddata o'r sawl sydd yn dymuno derbyn gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ein system CRM. Bydd yn bosibl hefyd dewis eich iaith ar ein safle.

5.1.6. Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol sydd i'w ddosbarthu gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ddwyieithog.

5.1.7. Caiff trefniadau i gyfieithu gohebiaeth eu gwneud yn ôl yr angen, a hynny o fewn yr amser penodedig ac yn yr iaith briodol. Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd ynghylch sut i gyflawni hyn.

5.1.8. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn danfon yr holl ddeunydd sydd angen ei gyfieithu at gyfieithydd allanol cymeradwy a fydd wedyn yn cydymffurfio â'r targedau amser priodol.

5.2. Gohebu Electronig

5.2.1 Caiff yr egwyddorion a amlinellir yn adran 5.1. eu gweithredu wrth gyfathrebu'n electronig. Gellir cyhoeddi cyhoeddiadau ar-lein yn ddwyieithog hefyd, fel dogfennau ymchwil a llyfrynnau gwybodaeth perthnasol.

5.2.2 Pan fo mathau newydd o gyfathrebu a llefydd storio yn cael eu gosod ar gyfrifiaduron Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, bydd gallu meddalwedd i ddelio â mwy nag un iaith yn ffactor i'w ystyried wrth brynu meddalwedd newydd, yn enwedig os yw'r fath systemau yn mynd i ddarparu allbwn/gwasanaeth dwyieithog.

5.3 Ffonio

5.3.1. Gan nad yw unrhyw un o staff Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn medru'r Gymraeg ni all y sefydliad ddelio gydag ymholiadau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cyfarch pob galwad ffôn yn Gymraeg, a phan fo aelod o'r cyhoedd am siarad Cymraeg, bydd yr aelod o staff yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais cyn cynnig i'r unigolyn a yw'n dymuno cyflwyno'r ymholiad ar ffurf ysgrifenedig yn Gymraeg a chael ateb iddo yn Gymraeg; esbonio'r ymholiad yn Saesneg ar lafar ond cael ateb ysgrifenedig yn Gymraeg; neu barhau â'r sgwrs yn Saesneg.

5.3.2 Bydd hi'n ddyletswydd ar bawb sy'n ateb y ffôn ar ran Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i ofalu na wna i'r rhai sy'n ffonio deimlo eu bod yn niwsans neu'n peri anghyfleustra am eu bod yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg.

5.3.3 Bydd yr holl gyfarwyddyd a negeseuon ateb yn cael eu recordio'n ddwyieithog ar yr holl rifau a hysbysebir yng Nghymru gyda'r hyn sydd wedi ei recordio yn dynodi y gall negeseuon gael eu gadael yn Gymraeg neu Saesneg.

5.3.4 Bydd y targedau amser a osodir wrth ateb ymholiadau ffôn Cymraeg yr un â'r targedau amser a osodir wrth ateb ymholiadau ffôn Saesneg.

5.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.4.1 Gan y bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, croesewir cyfraniadau yn Gymraeg neu'r Saesneg. Caiff hyn ei ddatgan ar yr holl hysbysiadau a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod a chaiff y sawl sy'n mynychu eu hatgoffa o'r dewis iaith ar ddechrau pob cyfarfod.

5.4.2 Yr unig eithriad i'r drefn uchod fydd cyfarfodydd y gwyddys ymlaen llaw na fydd angen cyfieithydd ynddynt, un ai:

- am fod pawb fydd yn bresennol yn deall Cymraeg
- am fod pawb fydd yn bresennol yn ddi-Gymraeg
- am y gwyddys mai Saesneg yw dewis iaith pawb fydd yn bresennol

5.4.3 Bydd yr holl lenyddiaeth (rhaglen, gwŷs, hysbyseb) a fydd yn hysbysebu'r cyfarfod yn ddwyieithog.

5.4.4 Wrth hysbysebu'r cyfarfod, bydd yr holl lenyddiaeth yn cynnwys nodyn yn datgan fod croeso i'r rhai fydd yn bresennol ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg. Bydd gofyn iddynt hefyd roi gwybod i'r trefnydd ymlaen llaw ba iaith y dymunant ei defnyddio yn y cyfarfod, oblegid wedi derbyn yr atebion, bydd y trefnydd yn penderfynu a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio.

5.4.5 Os nad yw'n hysbys ymlaen llaw bwy ddaw i'r cyfarfod ac a fydd neb am siarad Cymraeg ynddo ai peidio, bydd trefnydd y cyfarfod yn penderfynu yn ôl ei ddoethineb a ddylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ai peidio. Bydd y penderfyniad hwnnw yn seiliedig ar natur y cyfarfod, ei leoliad daearyddol, pwy fydd y gynulleidfa debygol a'r profiad o gyfarfodydd blaenorol cyffelyb. Os oes gwir ansicrwydd o hyd, yna penderfynir o blaid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

5.4.6 Bydd unrhyw ddeunydd ysgrifenedig a gaiff ei ddefnyddio yn y cyfarfod megis taflenni, agenda, asetynnau, yn ddwyieithog. Mae hyn hefyd yn cynnwys cyflwyniadau *Powerpoint*.

5.4.7 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymateb i unrhyw geisiadau am wybodaeth ynghylch cyfarfod yn newis iaith yr unigolyn.

5.4.8 Rhoddir canllaw i gadeiryddion di-Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus ynglŷn â hwyluso cyfraniadau yn Gymraeg.

5.5. Cyfarfodydd heb fod yn gyhoeddus

5.5.1. Mae croeso i'r sawl sydd am gynnal cyfarfod preifat neu wyneb yn wyneb gyda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg.

5.5.2. Nid oes gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, felly dros dro byddwn yn sicrhau, wrth drefnu cyfarfod a chynnig dewis iaith, bydd y mynychwr yn cael cynnig:

i) I drafod y mater yn Saesneg

ii) I anfon ei ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg er mwyn cael yr ateb yn Gymraeg

iii) Defnyddio cyfieithydd ar y pryd

5.5.3. Drwy gynnig dewis iaith, mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydnabod:

- Y gall unigolion fynegi'u hunain a'u hanghenion yn fwy effeithiol yn eu dewis iaith
- Bod galluogi unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith yn fater o ymarfer da ac nid yn gonsesiwn
- Drwy wadu unigolion i ddefnyddio'u dewis iaith, mi all hyn eu rhoi dan anfantais

5.5.4. Mae'r mesurau yma'n briodol i bob math o gyfarfodydd sydd heb fod yn gyhoeddus.

6. WYNEB CYHOEDDUS SGILIAU CREADIGOL A DIWYLLIANNOL

6.1. Hunaniaeth Gorfforaethol

6.1.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn mabwysiadu ac yn cyflwyno hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru sy'n gwbl ddwyieithog

6.1.2. Mae hyn yn cynnwys enw, cyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, slogan gorfforaethol ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i'w defnyddio ar:

- Papur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost
- Yr holl ddeunydd marchnata/hysbysebu (h.y. cylchlythyrau, posteri, taflenni) sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru
- Cardiau busnes, gwahoddiadau, bathodynnau adnabod

6.2. Gwefan

6.2.1. Bydd aelodau o'r cyhoedd yn medru dod o hyd i wybodaeth drwy gyfrwng gwefan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, a hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Er na fydd y dudalen groeso yn ddwyieithog, bydd yn cynnwys is-adran ar Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yng Nghymru.

6.2.2. Bydd y wefan hon wedyn yn cynnwys tudalen groeso ddwyieithog gyda thudalennau dilynol i'w cael yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd pob tudalen yn dynodi dewis iaith ac mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydnabod mai'r ffurf orau o lywio ieithyddol yw dewis iaith ar bob tudalen lle y ceir fersiwn iaith arall hefyd ar ei chyfer.

6.2.3. Bydd tudalennau Cymraeg a Saesneg y wefan yn cael eu gwerthuso a'u diweddaru ar yr un pryd. Wrth weithredu'r Cynllun, bydd y canlynol ar gael yn ddwyieithog

- Y dudalen Gymraeg ar y we - Creadigol,
- Holl brif adroddiadau Cymraeg, glasbrintiau
- Deunydd cyhoeddusrwydd a chyhoeddiadau Cymraeg

6.2.4 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd. Bydd fersiynau'r ddwy iaith ar gael mor hawdd â'i gilydd i'w llwytho i lawr.

6.2.5 Caiff holl staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) i'w cynorthwyo i lunio a delio gyda deunydd dwyieithog.

6.3. Arwyddion

6.3.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod arwyddion gwybodaeth newydd o fewn ffiniau eiddo Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog yn y derbynfeydd a fydd yn hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu Saesneg.

6.3.2. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.3. Er mai arwyddion dwyieithog yw'r opsiwn cyntaf, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, o'u darparu, yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

6.3.4. Bydd pob arwydd dwyieithog a fersiwn Gymraeg yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.3.5. Mae'r mesurau yma yn briodol i arwyddion parhaol a thros dro.

6.4. Cyhoeddi ac argraffu deunydd i'w ddosbarthu i'r cyhoedd yng Nghymru

6.4.1. Bydd yr holl ddeunydd a anelir at y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn ffurfio un ddogfen. Bydd y fersiynau'n cael eu printio gefn wrth gefn er mwyn hwyluso dosbarthiad, croesgyfeirio a dewis iaith.

6.4.2. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog unigol yw'r opsiwn cyntaf, pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân, byddant yn cael eu dosbarthu yn unol â'r canllawiau isod (e.e. oherwydd eu swmp), a bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol unwaith eto'n sicrhau y'u cyhoeddir yn unol â'r canllawiau isod.

6.4.3. Os codir tâl am ddogfen ddwyieithog, ni fydd ei phris yn uwch na fersiwn uniaith.

6.4.4. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol, yw'r opsiwn gorau, pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, cânt eu dosbarthu gyda'i gilydd.

6.4.5. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cynnwys neges yn dynodi fod y cyhoeddiad hefyd i'w ganfod yn yr iaith arall.

6.4.6. Ni fydd pris fersiwn Gymraeg unrhyw ddogfen yn uwch na phris y fersiwn Saesneg.

6.4.7. Caiff staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwyr gyfarwyddyd ysgrifenedig (e.e. *Canllawiau Dylunio Dwyieithog*) i'w cynorthwyo i lunio a delio gyda deunydd dwyieithog.

6.4.8. Bydd pob cyhoeddiad dwyieithog a fersiynau Cymraeg yn cael eu prawf-ddarllen gan gyfieithydd cymeradwy er mwyn gwarantu cysondeb yn safon y Gymraeg.

6.5 Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

6.5.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig sydd i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn **Deunydd a Gyhoeddir ac a Argraffir** – gweler adran 6.4 uchod.

6.5.2. Er mai cyhoeddiadau dwyieithog, unigol, yw'r opsiwn gorau, pan fo fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, cânt eu dosbarthu yn unol â chanllawiau 6.4.3. i 6.4.8. yn yr adran **Deunydd a Gyhoeddir ac a Argraffir.**

6.6. Datganiadau i'r Wasg

6.6.1. Bydd pob hysbysiad a datganiad gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i'r wasg a'r cyfryngau yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog.

6.6.2. Anfonir datganiadau yn Saesneg i gyfryngau y gwyddwn eu bod yn uniaith Saesneg ac yn Gymraeg i gyfryngau y gwyddwn eu bod yn uniaith Gymraeg.

6.6.3. Bydd y gwaith o drefnu'r ddarpariaeth uchod yn cael ei wneud gan Reolwr Cenedlaethol Cymru.

6.7. Gweithgareddau Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

6.7.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog, a hynny mewn modd sy'n trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydymffurfio â'r mesurau a amlinellir o fewn y Cynllun hwn (dan adran 6.4) yng nghyd-destun cyhoeddiadau dwyieithog.

6.7.2. Bydd y canlynol yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog:

- Yr holl lenyddiaeth farchnata wedi'i hanelu at y cyhoedd
- Arolygon a deunydd marchnata "drwy'r post"
- Hysbysebion yn y wasg / cyfryngau
- Arolygon cyhoeddus
- Ymgyrchoedd marchnata uniongyrchol
- Stondinau gwybodaeth ac arddangosfeydd
- Hysbysebu gyda Phosteri

6.8. Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio Staff

6.8.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod yr holl hysbysiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd o safbwynt fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd; boed hynny yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu fel arall.

6.8.2. Bydd y canlynol yn eithriadau i'r trefniadau uchod:

- hysbysiadau cyhoeddus mewn cyhoeddiadau Cymraeg. Bydd y rhain yn ymddangos yn Gymraeg yn unig.
- hysbysiadau mewn cyhoeddiadau a gylchredir drwy'r D.U. neu'n ehangach. Bydd y rhain yn ymddangos yn Saesneg yn unig.

6.8.3. Wrth baratoi a chyhoeddi hysbysebion i recriwtio staff yng Nghymru, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn dilyn y drefn a ganlyn:

(a) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *hanfodol* ar eu cyfer yn ymddangos;

- yn Gymraeg un unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Saesneg eu hiaith a gylchredir yn bennaf yng Nghymru ond gyda brawddeg esboniadol Saesneg ar waelod yr hysbyseb

(b) Bydd hysbysebion am swyddi y mae medru'r Gymraeg yn *ddymunol* ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg drwy'r D.U. neu y tu hwnt
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg

(c) Bydd hysbysebion am swyddi nad ydynt yn cyfeirio o gwbl at fedru'r Gymraeg yn cael eu cyhoeddi:

- yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf
- yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg
- yn Saesneg yn unig mewn cyhoeddiadau sy'n cylchredeg y tu hwnt i Gymru yn bennaf.
-

7. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

7.1 Staffio

7.1.1. Er mwyn sicrhau dros gyfnod o amser fod Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gallu darparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i safon uchel, yn effeithlon ac effeithiol, bydd yn mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol fel rhan o'i brosesau cynllunio adnoddau dynol. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i gael trosolwg o'i adnoddau a'i anghenion ieithyddol, gan gydlynu hyfforddiant a recriwtio i hwyluso amcanion y Cynllun. Bydd y mesurau isod yn rhan o'r Strategaeth hon.

7.1.2. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad uchod, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnal arolwg o'i wasanaethau, ei ddarpariaethau a'i staff er mwyn dynodi'n wrthrychol:

- pa weithleoedd neu sefyllfaoedd gwasanaethol sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru a natur y cyswllt hwnnw
- pa sgiliau dwyieithog a feddir gan y staff presennol ac i ba raddau y mae gan y staff ddiddordeb mewn gwella eu sgiliau

7.1.3. Ar ôl cynnal a dadansoddi'r arolwg uchod, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn dynodi'r swyddi hynny y mae medru'r Gymraeg ar eu cyfer yn *hanfodol,* yn *fanteisiol*, neu'n ddiangen. Caiff swydd-ddisgrifiadau wedyn eu llunio yn unol â'r canllawiau yn adran 6.8.

7.1.4. Bydd pob swydd newydd a phob un o'r swyddi presennol a ddaw'n wag yn cael eu hystyried yng ngoleuni gofynion y Cynllun hwn. Wrth wneud hynny, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymwybodol o'r angen i fanteisio ar bob cyfle i unioni unrhyw ddiffygion yn y ddarpariaeth/gwasanaeth Cymraeg.

7.1.5. Wrth fonitro gweithrediad y Cynllun, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cymryd camau cadarnhaol i adfer y sefyllfa os bydd nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi sy'n gysylltiedig â'r Cynllun yn dechrau lleihau.

7.2 <u>Dysgu Cymraeg</u>

7.2.1 Mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwasanaethol yn hanfodol i lwyddiant y Cynllun hwn. Cydnabydda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol fod y gallu i ddeall a siarad Cymraeg yn y gweithle o ddydd i ddydd yn sgil werthfawr sydd yn medru cynorthwyo staff i ddarparu gwasanaeth cyflawn i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.

7.2.2 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cefnogi gweithrediad y Cynllun drwy annog a chefnogi'r aelodau staff hynny sydd am ddysgu Cymraeg neu am loywi'u Cymraeg.

7.2.3 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn trefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i wireddiad y Cynllun. Bydd cyrsiau o'r fath ar gael i'r sawl sy'n dechrau dysgu Cymraeg ac i'r rhai hynny sydd am wella'u gallu i siarad ac ysgrifennu'r iaith. Sgiliau Creadigol a Diwylliannol fydd yn gyfrifol am dalu costau'r fath gyrsiau

7.2.4 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn penodi uwch swyddog a fydd yn gyfrifol am y rhaglenni dysgu a hyfforddiant.

7.2.5 Er nad oes gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithredu'r mesurau a amlinellir uchod drwy: ddarparu geiriaduron dwyieithog, annog staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac annog sgwrsio yn Gymraeg i ddysgwyr yn y swyddfa.

7.3 Recriwtio

7.3.1 Wrth recriwtio staff, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod croeso i siaradwyr Cymraeg ymuno â'r gweithlu. Bydd hyn yn cael ei gynnwys ym mhob manyleb person a hysbyseb.

7.3.2 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol wedyn yn ceisio hyfforddi ac apwyntio staff priodol gan y bydd hyn yn hwyluso gweithrediad y Cynllun. Bydd pob hysbyseb recriwtio ar gyfer pob swydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg ynghyd â'r swydd–ddisgrifiad neu'r manylion perthnasol, yn cael eu geirio mewn modd sy'n nodi'n eglur ofynion ieithyddol y swydd yn unol â mesurau 7.1.3. a 7.1.4. uchod.

7.3.3 Ar adegau, lle y bydd anhawster recriwtio staff sydd â'r sgiliau angenrheidiol, efallai y bydd angen penodi rhywun nad yw'n siarad Cymraeg i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn *hanfodol*. Fodd bynnag, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn hysbysebu a chynnig swyddi o'r fath ar y ddealltwriaeth y bydd angen i'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg ddysgu'r iaith fel amod o gyflogaeth a chyrraedd lefel foddhaol o ruglder o fewn cyfnod penodol rhesymol. Dylai'r lefel rhuglder a bennir fod yr hyn sydd ei angen i gyflawni dyletswyddau'r swydd, a dylid gwneud hynny'n glir i ymgeiswyr yn y manylion swydd, ochr yn ochr â chefnogaeth y sefydliad iddynt ddysgu'r iaith.

7.3.4 Wrth fwrw ymlaen â threfniadau o'r fath, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn rhoi'r amser a'r cymorth angenrheidiol i alluogi'r aelod o staff i fodloni'r amod gan sicrhau nad ydyw dan anfantais mewn modd arall oherwydd cadw at yr amod. Mae angen cynllunio'r rhaglen ddysgu a'i harolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y cyflogwyr a'r aelod staff yn cadw at eu gair. Bydd hyn yn rhan o sicrhau bod gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ei gyfanrwydd nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu i gyflwyno'r gwasanaethau sydd yn ei Gynllun.

7.3.5 Drwy weithredu fel hyn, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn trin gallu ieithyddol yn yr un modd yn union ag unrhyw sgil broffesiynol arall a all fod yn ofynnol ar gyfer cyflawni swydd ac a fydd yn destun adolygiad ymhen cyfnod penodedig. Gan hynny, rhaid parchu a gweithredu yn ôl yr amod cyflogaeth hwn yr un mor bendant â phob amod cyflogaeth arall a bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn adolygu cyrhaeddiad y sawl a benodir o fewn cyfnod penodedig wedi'r penodiad.

7.3.6 Pan ddaw'r swydd yn wag, caiff ei hysbysebu mewn modd a fydd yn cadarnhau fod sgiliau dwyieithog yn *ddymunol* er mwyn medru cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

7.4 Hyfforddiant Galwedigaethol

7.4.1 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn annog staff i ddatblygu'u sgiliau i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn iddynt ymgynefino â thrin a thrafod eu priod feysydd proffesiynol gyda'r cyhoedd yn Gymraeg.

7.4.2 Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad uchod, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg cyn darparu hyfforddiant galwedigaethol er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.

7.4.3 O gofio natur gwaith Sgiliau Creadigol a Diwylliannol bydd yn gweithredu'r ymrwymiadau hyn drwy roi hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff.

8. TREFNIADAU GWEINYDDOL

8.1. **Awdurdod:** Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cadarnhau fod y Cynllun hwn a'i holl fesurau wedi'u cymeradwyo ar y lefel uchaf ac yn derbyn cefnogaeth lawn yr awdurdodau rhanbarthol a chanolog wrth iddynt gael eu gweithredu.

8.2 **Cyfrifoldeb:** Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn enwebu Pennaeth Academi Sgiliau Cymru i gymryd cyfrifoldeb llwyr dros weithredu a monitro'r cynllun.

8.3 Pennaeth Academi Sgiliau Cymru fydd yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd ac integreiddio elfennau Cymraeg y gwasanaeth ble bynnag y bydd hynny'n bosibl o fewn y prosesau gweinyddol arferol.

8.4 **Cyfarwyddyd ac Arweiniad:** Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod ei holl staff yng Nghymru a'r rhai hynny sydd yn delio gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn derbyn cyfarwyddyd ar y Cynllun a'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt (Gweler adran 3.1.1)

8.5 Bydd y cyfieithwyr (*allanol*) a ddefnyddir gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gymwys i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf. [Ceir rhestr gyflawn o gyfieithwyr cymeradwy ar wefan Comisiynydd y Gymraeg http://www.comisiynyddygymraeg.org/]

8.6 Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau fod unrhyw raglenni cyfrifiadur newydd yn medru darparu allbwn dwyieithog er mwyn hwyluso gweithrediad y Cynllun.

9. GWASANAETHAU AR RAN Y CORFF GAN BARTÏON ERAILL

9.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau y bydd unrhyw gytundeb neu drefniant sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wneir gyda thrydydd parti yn gyson â thelerau'r Cynllun. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u contractio allan.

9.2. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol hefyd yn gwarantu drwy drefniadau contractio y gall, y bydd a bod yr asiant neu'r contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o Gynllun y sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei oruchwyliaeth.

9.3. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydweithio gyda chyflenwyr i annog gweithrediad eu Cynlluniau Iaith hwy eu hunain.

9.4. Bydd rhaid i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r mesurau perthnasol o Gynllun Sgiliau Creadigol a Diwylliannol drwy darparu adroddiad perfformiad

9.5. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn darparu cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r sawl sydd yn delio gyda chontractwyr ac yn dyfeisio prosesau er mwyn sicrhau fod staff yn glynu atynt.

10. PARTNERIAETHAU

10.1. Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithredu ar sawl lefel wrth gydweithio ag eraill:

i) Pan fo'r Cyngor yn arwain partneriaeth, yn strategol ac yn ariannol, bydd yn sicrhau fod y ddarpariaeth gyhoeddus yn unol â'r Cynllun Iaith, er enghraifft gweithio ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru.

ii) Pan fo Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd mewnbwn Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith a bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn annog y partïon eraill i gydymffurfio.

iii) Pan fo Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithredu fel rhan o gonsortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus yn enw'r Consortiwm bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gweithredu'n unol â'i Gynllun Iaith.

iv) Pan fo Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ymuno â neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith, polisïau iaith neu'r modd y maent yn bwriadu gweithredu yn ddwyieithog. Fel rhan o bob partneriaeth, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnig cyngor a chymorth i'r partïon eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth.

11. MONITRO GWEITHREDIAD Y CYNLLUN

11.1. Bydd Pennaeth yr Academi Sgiliau yn bennaf gyfrifol am fonitro'r Cynllun ac am ei adolygu'n barhaol fel yr amlinellir yn adran 8.2.

11.2. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn strwythuro'r broses fonitro ac yn paratoi adroddiad cynnydd mewnol ar weithrediad y Cynllun a gaiff ei gyflwyno i'r tîm rheoli. Bydd yr adroddiad i'w gyflwyno pob chwe mis

11.3. Bydd Bwrdd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol] yn derbyn adroddiad cydymffurfiaeth blynyddol fydd yn ei alluogi i ateb y ddau gwestiwn sylfaenol canlynol:

- A yw Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cydymffurfio â'r Cynllun?
- Pa mor dda y mae'n gwneud hynny?

Wrth wneud hyn, bydd yr adroddiad yn delio â,

- gwasanaeth Cymraeg gweinyddol Sgiliau Creadigol a Diwylliannol
- asesu themâu penodol wrth weithredu'r Cynllun, gan gynnwys cyfraniad Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i ddatblygiad darpariaethau ddwyieithog/Cymraeg
- digonolrwydd hyfedredd ieithyddol y gweithlu i weithredu gofynion y Cynllun Iaith.

11.4. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn am gwmpas ac ansawdd ei ddarpariaethau / gwasanaethau dwyieithog.

11.5. Bydd monitro'r Cynllun yn weithgarwch strwythuredig a pharhaol, ac os bydd yr adroddiad yn canfod gwendidau, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn paratoi Cynllun gweithredu fydd yn ateb unrhyw wendid a ganfuwyd.

11.6. Bydd copi o'r adroddiad hwn yn cael ei anfon at Comisiynydd y Gymraeg.

11.7. Yn ystod y drydedd flwyddyn o weithredu'r Cynllun hwn, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn paratoi **adroddiad gwerthuso** cyflawn a fydd yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd gyntaf. Er mwyn adolygu a diweddaru ei Gynllun Iaith a thrwy hynny dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer yr ail gyfnod o weithredu, bydd yr adroddiad yn

- darparu gorolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaeth a pherfformiad wrth weithredu'r Cynllun dros y tair blynedd;
- amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd ddilynol sy'n deillio o'r gwerthusiad, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.
- Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnal arolwg o fodlonrwydd y cyhoedd er mwyn cael eu barn am gwmpas ac ansawdd ei wasanaethau dwyieithog.

11.8. Bydd yr adroddiad blynyddol a ddarperir gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i Comisiynydd y Gymraeg mewn fformat a fydd wedi'i gytuno gan y Comisiynydd, ac yn disgrifio datblygiad gweithrediad y Cynllun yn erbyn yr amserlenni cymeradwy. Bydd hefyd yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau am welliannau sydd wedi eu derbyn oddi wrth y cyhoedd.

12. CYHOEDDI GWYBODAETH

12.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cyhoeddi'n rheolaidd wybodaeth sy'n cymharu perfformiad yn erbyn y safonau a thargedau a nodir yn y Cynllun.

12.2. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn gwireddu'r ymrwymiad uchod drwy:

- *Gyhoeddi adroddiad cyfnodol fel yr amlinellir yn 11.2. a 11.3.*
- *Gosod yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol*
- *Dewiser fel bo'n briodol: gosod crynhoad o'r wybodaeth mewn dogfennau eraill lle y caiff perfformiad ei arolygu; posteri mewn mannau cyhoeddus ac o fewn swyddfeydd; cylchlythyron; gwefan ac ati*

12.3. Lle bo Sgiliau Creadigol a Diwylliannol wedi methu cyrraedd at dargedau, caiff esboniad am hyn ei gynnig a disgrifiad o sut a phryd y bydd yn cyrraedd targedau diwygiedig.

13. CYHOEDDUSRWYDD (adran 12(2)(b) o'r Ddeddf

13.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn sicrhau cyhoeddusrwydd eang i'r Cynllun Iaith hwn ymhlith y cyhoedd er mwyn sicrhau, ar y naill law, fod y cyhoedd a phawb a ddaw i gysylltiad ag ef

yn ymwybodol o'i wasanaethau yn Gymraeg a bod staff cyflogedig, asiantiaid a chontractwyr Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ar y llaw arall yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

13.2. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun drwy baratoi copïau ar gyfer cyrff/mudiadau perthnasol, cyflogwyr neu aelodau o'r cyhoedd. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol hefyd yn paratoi *tudalennau gwe* a fydd yn esbonio prif elfennau'r Cynllun ac yn manylu ar natur, lleoliad ac argaeledd y gwasanaethau dwyieithog. Bydd y fath ddeunyddiau ar gael i'r holl gyrff/mudiadau perthnasol, cyflogwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

13.3. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ynghylch y Cynllun at Bennaeth Academi Sgiliau Cymru.

14. CWYNION/AWGRYMIADAU A MANYLION CYSWLLT

14.1. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn mabwysiadu trefn gwyno er mwyn delio â chwynion yn erbyn y Cynllun, a hynny fel rhan o drefn gwyno gyffredinol Sgiliau Creadigol a Diwylliannol. Cysylltwch â Phennaeth Academi Sgiliau Cymru – Sarah Mair Hughes: sarah.hughes@ccskills.org.uk ffôn: 02920 444195.

14.2. Bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn croesawu ac yn cadw cofnod o unrhyw gwynion neu awgrymiadau am welliannau er mwyn gwella'r ddarpariaeth ddwyieithog i'r cyhoedd. Ysgrifennwch atom yn 1 Caspian Point, Stryd y Pier, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 4DQ

15. TARGEDAU

15.1. Byddwn yn gosod targedau penodol ar gyfer gweithredu'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun. Bydd y targedau yma'n dynodi'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd, y rhai hynny y gellir eu gweithredu ar unwaith, y rhai hynny a bennir yn dargedau tymor byr, targedau canolig a thargedau hirdymor. Bydd y fath dargedau yn eglur, diamwys a pherthnasol.

16. AMSERLEN (adran 12(2)(a) o'r Ddeddf)

16.1. Os nad yn wahanol i'r hyn a nodir, bydd yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Cynllun hwn yn weithredol o'r dyddiad y caiff y Cynllun ei gymeradwyo. Bydd y broses fonitro wedyn yn dilyn y drefn a amlinellir yn adran 11. Er enghraifft:

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
3.1	I sicrhau bod holl staff yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg Sgiliau Creadigol a Diwylliannol drwy'r llawlyfr staff a ddiweddarwyd.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau
3.1	I sicrhau bod yr holl bolisïau a mentrau newydd yn ystyried gofynion Gynllun Iaith Gymraeg Sgiliau Creadigol a Diwylliannol.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli / Pennaeth Academi Sgiliau Cymru

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
3.2	I ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i'r un safon uchel â'r rhai a ddarperir yn Saesneg.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli / Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
3.3	I gynnal archwiliad o wasanaethau a ddarperir er mwyn canfod y ffordd orau o'u darparu yn Gymraeg.	Rhagfyr 2014	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
4.5	I ddarparu adnodd Iaith Gymraeg ar y we (Creadigol) i amlygu'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael yng Nghymru a'r rhai sydd aer gael yn Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys hunan-asesiad dwyieithog i fusnesau.	Hydref 2014 (diweddarir yn rheolaidd)	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru a'r Swyddog Digidol
4.5	I ddatblygu gwasanaeth cyngor gyrfaoedd dwyieithog i bobl ifanc yng Nghymru fel rhan o Creadigol.	Hydref 2014 (diweddarir yn rheolaidd)	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru, Wales a'r Swyddog Digidol
4.7	I ddatblygu a chynnal ystod o gymwysterau ar gael i'r sector yn Gymraeg.	Hydref 2014	Rheolwr Cymru / Rheolwr Ansawdd
5.1	Papur pennawd swyddogol y CCS i'w ddefnyddio yng Nghymru a chyfathrebir yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
5.1.3 & 5.1.6	Proses yn ei lle i sicrhau bod llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ateb a lofnodir yn Gymraeg cyn gynted â bo hynny'n ymarferol. Staff i gael canllaw ar sut i gyflawni hynny.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
5.1.5	Cronfa ddata i'w chasglu a'i sefydlu i restru'r rhai sy'n dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.	Rhagfyr 2014	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
5.1.7 & 5.1.8	Anfon deunydd sydd angen ei gyfieithu i gyfieithwyr cymwys a fydd yn cydymffurfio ag amserlenni cytunedig.	Eisoes yn bolisi	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
5.2	Bydd egwyddorion a amlinellir ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig yn berthnasol hefyd ar gyfer cyfathrebu electronig.	Hydref 2014	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
5.3	I sicrhau bod gan reolwyr gweithredol negeseuon ffôn yn Gymraeg a Saesneg.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
5.4	Os bydd Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cynnal unrhyw gyfarfodydd cyhoeddus yn y dyfodol, byddwn yn croesawu unrhyw gyfraniadau yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd hyn yn cael ei ddatgan yn glir ar hysbysiadau sy'n sôn am y cyfarfod a bydd mynychwyr yn	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
	cael gwybod am y dewis iaith hefyd.		
5.5	Bydd croeso i unrhyw un sy'n dymuno cynnal cyfarfodydd preifat neu un i un gyda Sgiliau Creadigol a Diwylliannol wneud hynny'n Gymraeg neu Saesneg. Bydd cyfieithydd ar y pryd ar gael yn ystod y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn Gymraeg.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli
6.1	I fabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog yng Nghymru.	Eisoes wedi ei gwblhau	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
6.2	Mae gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ran Gymraeg ar y wefan lle gall y cyhoedd gael mynediad at ddeunydd sy'n benodol yn ymwneud â Chymru yn Gymraeg a Saesneg. Er na fydd tudalen hafan ar wefan DU Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn ddwyieithog, bydd yn cynnwys is-adran ddwyieithog ar y sefydliad yng Nghymru. Dogfennaeth ddwyieithog ar y wefan.	Hydref 2014	Swyddog Digidol SPFP, Pennaeth Digidol, Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
6.3	I ddarparu arwyddion Cymraeg yng Nghymru.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
6.4 & 6.5	I sicrhau bod cyhoeddiadau/ ffurflenni a deunydd cysylltiedig ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.	Eisoes y bodoli	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
6.6	I gyhoeddi datganiadau i'r wasg yng Nghymru'n ddwyieithog.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
6.7 & 6.8	Pob gwaith cyhoeddusrwydd, hysbysebu a recriwtio yng Nghymru i'w gynhyrchu'n ddwyieithog ar wahân i gyhoeddiadau Cymraeg i fod yn Gymraeg yn unig a chyhoeddiadau'r DU i fod yn Saesneg yn unig.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli
7.2	I gefnogi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli
7.3	I groesawu ceisiadau gan staff Cymraeg wrth recriwtio.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli
7.4	I sicrhau bod hyfforddiant galwedigaethol ar gael i staff yn Gymraeg lle bydd hynny'n briodol.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli
9	I sicrhau nad yw trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru ar ran	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli

Paragraff	Ymrwymiad	Amserlen	Swyddog Cyfrifol
	Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn tramgwyddo amodau'r Cynllun Iaith Gymraeg.		
10	I sicrhau bod cynnwys Cynllun Iaith Gymraeg Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn cael eu hystyried yn briodol wrth weithio â phartneriaid.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Uwch Dîm Rheoli
11	I fonitro gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn rheolaidd.	Bob 6 mis	Pennaeth Academi Sgiliau Cymru
11.7	I gynhyrchu adroddiad gwerthuso.	O fewn 3 blynedd	Uwch Dîm Rheoli
12	I gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd ynghylch cymharu perfformiad safonau a thargedau a osodir yn y cynllun.	Fel y cytunir	Uwch Dîm Rheoli
14	I ddelio â chwynion drwy'r drefn gwyno briodol.	Unwaith y cytunir ar y Cynllun	Cyfarwyddwr Cenhedloedd